# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24

**PARTNERIAETH RHEILFFORDD GYMUNEDOL DYFFRYN CONWY AC ARFORDIR GOGLEDD CYMRU**

**MAI 2024**

**AWDUR: KAREN WILLIAMS**
**TEITL: SWYDDOG RHEILFFORDD GYMUNEDOL**



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Y BARTNERIAETH | 1 |
| NEGES GAN Y CADEIRYDD | 2 - 3 |
| SWYDDOG RHEILFFORDD GYMUNEDOL | 4 |
| DARPARWR | 5 |
| PROSIECTAU 2023-24 | 6 - 12 |
| YN Y DYFODOL... | 13 |




# Y BARTNERIAETH

## PWY YDYM NI A’N HAMCANION

**Croeso i Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru.**

Rydym yn Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol wedi’i hachredu gan y Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol (Community Rail Network), Yr Adran dros Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru. Mae Mr Philip Evans, Cadeirydd, a Haf Jones, Is-gadeirydd, yn eich croesawu i’r adroddiad blynyddol hwn sy’n tynnu sylw at ein gwaith i gysylltu cymunedau â’u rheilffyrdd.

Mae aelodau ein partneriaeth yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Avanti, Network Rail, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, cynrychiolwyr y cynllun Mabwysiadu Gorsafoedd, y Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol, Boots on the Ground, a Groundwork Gogledd Cymru, ein darparwr.
Cyflawnir y cynllun gweithgareddau busnes gan yr holl aelodau, o dan arweiniad y Swyddog Rheilffordd Gymunedol. Nod ein cynllun yw:

1. **Rhoi llais i’r gymuned**
2. **Hyrwyddo teithio iach, cynaliadwy a hygyrch**
3. **Dod â chymunedau at ei gilydd a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant**
4. **Cefnogi datblygiad cymdeithasol ac economaidd**

Mae Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys y rheilffyrdd o Flaenau Ffestiniog i Landudno, ac o Gaergybi i Shotton.

# NEGES GAN Y CADEIRYDD



## MR PHILIP EVANS

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â'r gweithgareddau a amlinellir yn yr Adroddiad, cafwyd sawl newid a datblygiad. Gwnaethom ffarwelio â Claire Williams, ein Swyddog Rheilffordd Gymunedol, a wnaeth ein gadael i weithio ar fenter busnes yn lleol; rydym yn ddiolchgar iddi am yr holl brosiectau a mentrau y bu hi'n gweithio arnynt yn ystod ei hamser gyda'r Bartneriaeth.

Yn dilyn ymadawiad Claire, roeddem yn ffodus i groesawu Karen Williams, ei rhagflaenydd, yn ôl atom. Oherwydd ei phrofiad blaenorol yn y swydd mae hi wedi ymgartrefu'n dda ac wedi bwrw at y gwaith yn syth.

Ar yr un pryd, cafwyd newid i'r trefniadau o ran darparwr y Bartneriaeth. Daeth ein perthynas â Creu Menter i ben ac yn dilyn proses, penodwyd Groundwork Gogledd Cymru, menter gymdeithasol o Wrecsam. Mae'r partner newydd eisoes wedi cael profiad o ddarparu Partneriaeth y 3 Sir Gysylltiedig sy'n cynnwys y rheilffyrdd sy'n gwasanaethu Caer, Wrecsam, Crewe, ac Amwythig. Mae'n bleser dweud bod y trefniant newydd yn gweithio'n dda, ac rwyf yn ddiolchgar iawn i Hanna Clarke, Pennaeth Marchnata Groundwork Gogledd Cymru, a Melanie Lawton, Trafnidiaeth Cymru, am hwyluso'r trefniadau. Mae'r ymagwedd gadarnhaol hon yn rhoi cyfle i ni gydweithio'n agos ar brosiectau ar y cyd â'n cydweithwyr yn y 3 Sir Gysylltiedig.

Yn ogystal â'r newidiadau hyn, mae ardal y Bartneriaeth wedi newid unwaith eto gan ymestyn i gynnwys y rheilffordd rhwng Bae Colwyn a Shotton. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio i gynyddu ein presenoldeb yn yr ardal newydd ac mae'r Gronfa Cydnerthedd Cymunedol wedi ein galluogi i gysylltu â sawl grŵp cymunedol ac elusen yn y dwyrain.

Trwy'r cysylltiadau hyn, rydym yn ceisio annog cynrychiolwyr i fabwysiadu gorsafoedd; maent yn chwarae rhan werthfawr iawn i ofalu am orsafoedd lleol a'u cadw'n daclus. Gwnaethom dalu ar y cyd am ginio Nadolig ar gyfer yr holl wirfoddolwyr hyn er mwyn diolch iddynt am eu holl waith i gefnogi'r rheilffordd.

Cafodd gwaith y Bartneriaeth ei gydnabod yn genedlaethol unwaith yn rhagor ac fe wnaeth dau o'n prosiectau – murlun yng ngorsaf Conwy a fideo i annog teithwyr llai hyderus – gyrraedd y rhestr fer yng ngwobrau blynyddol y Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol.

Roedd cymuned y rheilffyrdd yn drist iawn i glywed am farwolaeth annisgwyl Larry Davies ym mis Mawrth. Yn dilyn ei ymddeoliad fel Comander Adrannol gyda Heddlu Gogledd Cymru, treuliodd Larry dros ddegawd yn gweithio fel Swyddog Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy. Roedd Larry yn uchel iawn ei barch, a gosododd y sylfeini ar gyfer llawer o'n gwaith heddiw. Roedd ganddo enw da a haeddiannol yn genedlaethol fel ffotograffydd a hanesydd y rheilffyrdd, a byddai awduron pob math o gyhoeddiadau rheilffyrdd yn cysylltu ag ef yn aml. Roedd y gynulleidfa fawr a ddaeth i'w angladd yn dyst i'w boblogrwydd ledled yr ardal.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae gennym sawl prosiect newydd ar y gweill gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc i'w hannog i ddefnyddio'r rheilffyrdd, gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo diogelwch ar y rheilffyrdd, a menter gyffrous i gael Window Seater App ar reilffordd Dyffryn Conwy a fydd yn adrodd hanes a diwylliant y rheilffordd i'r teithwyr. Rydym yn dal i weld mwy o unedau diesel Dosbarth 197 newydd Trafnidiaeth Cymru ar ein rheilffyrdd ac rydym yn edrych ymlaen i weld trenau trydan-diesel newydd Dosbarth 805 Avanti West Coast ar yr arfordir cyn bo hir.

I gloi, hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i'r Is-gadeirydd, Haf Jones ac aelodau eraill y Bartneriaeth am eu cefnogaeth barhaus; i Mel Lawton, Swyddog Arweiniol Rheilffyrdd Cymunedol Trafnidiaeth Cymru y mae ei chyngor, profiad a gwybodaeth am ein hardal mor werthfawr; i Claire a Karen ein Swyddogion Rheilffyrdd olynol am bopeth maent wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth a chydweithrediad parhaus a pharod ein dau Weithredwr Trên, Trafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast.

**Philip C Evans YH FIoL**
**Cadeirydd Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru**

# SWYDDOG RHEILFFORDD GYMUNEDOL

## KAREN WILLIAMS



Cefais fy mhenodi yn Swyddog Rheilffordd Gymunedol newydd Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2023 ar ôl gweithio yn y swydd honno rhwng 2020 a 2022. Roedd yn anrhydedd camu'n ôl i swydd rwyf yn ei mwynhau'n fawr iawn.

Rwyf wedi byw a gweithio yn Sir Conwy ar hyd fy oes ac rwyf wrth fy modd yn meithrin perthynas newydd gyda mudiadau lleol yn ogystal ag ailgydio mewn hen berthnasoedd gwaith, a chreu rhai newydd, cryfach a mwy cydnerth.

Rwyf wedi mwynhau ailafael yn y gwaith ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr i wneud cysylltiadau newydd, cynllunio prosiectau newydd a chyffrous yn y cymunedau lleol sy'n dod â budd cymdeithasol ac economaidd, a chysylltu ein cymunedau â'r rheilffordd.



# DARPARWR

## GROUNDWORK GOGLEDD CYMRU

Ym mis Tachwedd 2023, gwnaethom ffarwelio â'n darparwr Creu Menter a sefydlu perthynas waith newydd gyda Groundwork Gogledd Cymru. Mae Groundwork Gogledd Cymru eisoes yn darparu Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol y 3 Sir Gysylltiedig sy'n cynnwys rheilffyrdd yn ardaloedd Caer, Wrecsam, Amwythig a Crewe.

Mae Groundwork Gogledd Cymru wrth ein bodd i gael ein dewis yn ddarparwr Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru. Mae'r bartneriaeth yn chwarae rhan hanfodol i gefnogi'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu ar hyd y rheilffyrdd, gan gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl leol.

Yn ddiweddar, penodwyd Karen Williams yn Swyddog Rheilffordd Gymunedol y bartneriaeth. Mae ei brwdfrydedd a'i gwaith caled eisoes wedi gwneud gwahaniaeth mawr i adfywio'r partneriaethau ar ôl cyfnod o ddiffyg gweithgaredd heb swyddog dynodedig.

Rydym yn hynod o optimistaidd am waith y bartneriaeth yn y dyfodol ac rydym yn hyderus y bydd y bartneriaeth yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y cymunedau mae'n ei gwasanaethu ar hyd rheilffyrdd Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru.

Mae Groundwork Gogledd Cymru yn falch iawn o roi cartref i'r bartneriaeth rheilffordd gymunedol bwysig hon. Rydym yn edrych ymlaen i gefnogi Karen a'r bartneriaeth i gyflwyno mentrau sy'n dod â budd i breswylwyr lleol, defnyddwyr trenau, twristiaid a phawb sydd â chysylltiadau â'r ardal hardd hon yng Ngogledd Cymru.

# PROSIECTAU 2023-24

## PROSIECTAU CELF Y GORSAFOEDD











Ym misoedd Rhagfyr 2023 ac Ionawr 2024, gweithiodd y Bartneriaeth Rheilffordd yn agos â Matthew Cassidy a Suzanne Hall, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn y Rhyl. Diolch i arian gan y bartneriaeth a Trafnidiaeth Cymru, fe wnaethom gydweithio ag Ysgol Gatholig Crist y Gair, y Rhyl, ac Ysgol Dyffryn Conwy, a rhoi cyfle i ddisgyblion ddylunio a chreu gwaith celf yn seiliedig ar ddiogelwch y rheilffyrdd a thwristiaeth. Gyda chymorth yr artist graffiti lleol Dime One Graffiti and Art, cafodd eu dyluniadau eu chwistrellu ar arosfannau a byrddau a'u harddangos yng ngorsafoedd Gogledd Llanrwst a'r Rhyl. Cafodd cyfanswm o 50 disgybl gyfle i ddysgu sgiliau paentio a dylunio.

# PROSIECTAU 2023-24

## E-FEICIO I WELLA LLES







Yn ystod mis Chwefror, gwnaethom lansio prosiect e-feicio a ariannwyd gan Avanti West Coast, gyda'r nod o annog pobl i grwydro eu hardal leol a gwella eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol. Gan weithio'n agos â thîm Ffit Cyngor Conwy, gwnaethom gynnig sesiynau e-feicio 2 awr o hyd am ddim, gan roi cyfle i bobl archebu ar-lein. Roedd gan feicwyr dibrofiad a phrofiadol fel ei gilydd ddiddordeb yn y sesiynau. Cafodd disgyblion eu cyfeirio at y rhaglen gan Unedau Atgyfeirio Disgyblion yr awdurdod lleol hefyd. Gwnaeth dros 60 o bobl elwa ar daith e-feic yn rhan o'r lleoliadau harddaf, gan gynnwys Bwlch Sychnant, Rowen a Henryd. Yn dilyn llwyddiant y sesiynau hyn, mae sawl grŵp wedi gwneud ffrindiau ac maent yn dal i gyfarfod yn rheolaidd; roedd diddordeb mawr hefyd mewn prynu beiciau ac offer er mwyn parhau i feicio.

# PROSIECTAU 2023-24

## E-FEICIO I WELLA LLES

### ADBORTH

Dywedodd Pam, un o'r beicwyr – *'Mae mor braf cyfarfod pobl ifanc a pheidio â chael eich gadael ar ôl ar y beic. Rydym wedi bod yn seiclo ac yn sgwrsio'.*

Gethin – tiwtor Uned Atgyfeirio Disgyblion – *'Mae'r sesiynau e-feicio wedi fod yn fuddiol iawn i'r unigolion a'r dosbarth cyfan. Rydym wedi sylwi ar hyn ar ôl pob reid. Mae'r plant yn amharu llai ar y dosbarth ac yn canolbwyntio mwy'.*

Dywedodd Ruth, un arall o'r cyfranogwyr *'Rwyf yn datblygu fel seiclwr. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus bob amser ac rwyf wrth fy modd yn sgwrsio â'r grŵp dros baned ar ôl y sesiwn.'*

# PROSIECTAU 2023-24

## AGORIAD SWYDDOGOL CAFFI PORTERS






Agorodd Adferiad ei gaffi newydd yn swyddogol yng Nghyffordd Llandudno ym mis Mawrth. Roedd Janet Finch-Saunders AS/AC Aberconwy yno i chwilio'r faner yn swyddogol ac agor y caffi ar ei newydd wedd yng nghwmni Cadeirydd Adferiad Clive Woolfendale. Mae'r caffi ar agor 6 diwrnod yr wythnos ac yn gwerthu diodydd poeth ac oer, byrbrydau, brechdanau a lluniaeth ysgafn.


# PROSIECTAU 2023-24




Roeddem wrth ein bodd i gynnig rownd arall o'n cronfa grant cydnerthedd unwaith eto eleni. Mae'r Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol ar y cyd ag arian Trafnidiaeth Cymru wedi darparu cronfa gwerth £25,000 i gymunedau yn yr ardaloedd rhwng Llandudno a Blaenau Ffestiniog a Chaergybi a Shotton. Derbyniwyd dros 70 cais a chafodd 33 o gwmnïau buddiannau cymunedol, elusennau a grwpiau cymunedol lleol gefnogaeth ariannol. Dyma rai o'r ceisiadau llwyddiannus:

- Menter The Kind Bay Initiative, Pride 2024
- Credu Gofalwyr Ifanc Conwy
- Grŵp Colli Golwg Conwy
- Grŵp Drama Cymunedol Betws y coed
- Mind Dyffryn Clwyd

## GRANT CYDNERTHEDD 2024




Gwnaethom ddathlu Diwrnod y Llyfr ym mis Mawrth yng ngorsaf Caer gyda'r 3 Sir Gysylltiedig, Partneriaeth y Rheilffordd Gymunedol, Avanti, a Trafnidiaeth Cymru. Dosbarthwyd copïau o lyfrau Arlos's Adventure sy'n ymwneud â diogelwch y rheilffyrdd i blant a theuluoedd, er mwyn tynnu sylw at beryglon y rheilffyrdd. Mae Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru wedi derbyn £10,000 gan Avanti West Coast, ac mae'r arian hwn ynghyd â chyllid gan Trafnidiaeth Cymru a GWR, wedi ariannu llyfr diogelwch y rheilffyrdd newydd i blant o'r enw Rupees Travels a gaiff ei lansio yng ngorsaf Bangor ym mis Mai.

## DIWRNOD Y LLYFR 2024

# PROSIECTAU 2023-24

## GWOBRAU'R RHEILFFORDD GYMUNEDOL






Ym mis Mawrth, ymunodd y Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol, y Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol a gweithredwyr rheilffyrdd eraill yn Abertawe i gynnal Gwobrau blynyddol y Rheilffyrdd Cymunedol. Roeddem wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer dau gategori: 'Cynnwys Plant a Phobl Ifanc' am y prosiect celf yng ngorsaf Conwy gyda disgyblion Ysgol Aberconwy, a 'Dylanwadu ar Newid Cadarnhaol a Chynaliadwyedd' ar gyfer y prosiect 'Hyderus i Deithio', mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru a Tape Music and Film. Roeddem wrth ein bodd i gyrraedd y 3ydd safle gyda phrosiect celf Conwy. Yn anffodus, nid oeddem yn llwyddiannus yn yr 2il gategori. Ymddangosodd datganiad i'r wasg yn y North Wales Pioneer a'r Welsh Country Magazine ar-lein.

# PROSIECTAU 2023-24




Rydym wedi lansio ein gwefan newydd a lliwgar. Rydym wedi ymuno â'r cwmni dylunio gwefannau lleol Artychoke i greu gwefan ddeniadol a lliwgar sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf yn ogystal â syniadau am bethau i'w gwneud ac adroddiad am ein cynnydd. Mae cysylltiadau at deithiau cerdded lleol a gwefannau cerdded fel 'Go Jauntly' er mwyn crwydro'r ardal leol gan ddefnyddio'r trên. Gallwch weld ein gwefan newydd yma https://www.conwyvalleynorthwalescoast.com/cy/

## GWEFAN NEWYDD




Yn 2020, fe wnaeth y Bartneriaeth enhangu i gynnwys ardal arfordir Gogledd Orllewin Cymru o Gyffordd Llandudno i Gaergybi. Gwnaethom gydweithio â Starfish Design Llandudno i addasu ein map o ardal Dyffryn Conwy yn unol â'r newid hwn. Mae'r map bellach yn gyhoeddus ac rydym yn falch iawn o'i arddangos yng ngorsaf Llandudno. Treuliodd Starfish sawl mis yn ymchwilio i leoliadau a gweithgareddau diddorol ar hyd y rheilffordd, ac mae wedi creu lluniau hyfryd hefyd. Mae Llwybrau T2 a T10 Traws Cymru wedi'u dangos ar y map, ynghyd â chodau QR gweddill gwasanaethau Traws. Mae gan fws Sherpa'r Wyddfa ei god QR ei hun ar gyfer gwasanaethau sy'n cysylltu. Mae'n werth galw draw i'r orsaf i edmygu ein map newydd.

## MAP NEWYDD

# YN Y DYFODOL...

## DIGWYDDIADAU YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Wrth i'r Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol ddatblygu ac ehangu i ardaloedd newydd fel Gwynedd ac Ynys Môn i'r Gorllewin, a Sir Ddinbych a Sir y Fflint i'r Dwyrain, rydym yn chwilio am aelodau newydd i ymuno â'n grŵp llywio. Rydym yn cynnal 3 digwyddiad recriwtio ym Mangor, Caer a'r Rhyl ac rydym yn awyddus i wahodd aelodau o grwpiau cymunedol, elusennau, y sector lletygarwch a thwristiaeth, a mudiadau cymorth eraill i ymuno. Byddwn yn cynnal y digwyddiadau ym mis Medi a bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan, neu drwy gysylltu â hello@conwyvalleynorthwalescoast.com

## RHEILFFYRDD CYMUNEDOL YN Y DDINAS

Byddwn yn mynd i orsaf Piccadilly, Manceinion a Birmingham New Street ym mis Mai i ddathlu Rheilffyrdd Cymunedol yn y Ddinas. Byddwn yn hyrwyddo Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru ac ardal newydd y Bartneriaeth. Byddwn yn dosbarthu ein taflenni amserlenni newydd sy'n tynnu sylw at atyniadau y gellir ymweld â nhw yn yr ardal.

# CYSYLLTW CH Â NI




**E-bost**
hello@conwyvalleynorthwalescoast.com

**Gwefan**
www.conwyvalleynorthwalescoast.com/cy/

**Cyfryngau Cymdeithasol**